Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019

www.steddfota.org

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Blwyddyn arall wedi mynd heibio yn hanes y Gymdeithas, blwyddyn sydd wedi bod yn eitha' llwyddiannus ar y cyfan yn hyrwyddo a chynorthwyo Eisteddfodau lleol Cymru.

Dyma ni mewn Eisteddfod Genedlaethol arall yn mwynhau wythnos o ddigwyddiadau diwylliedig ar eu gorau. Rhaid dathlu uchafbwyntiau blwyddyn arall o ymroddiad swyddogion a gwirfoddolwyr yr eisteddfodau lleol drwy Gymru yn gyffredinol, gan obeithio eich bod wedi cael eisteddfodau llwyddiannus yn eich ardaloedd, ac y cewch gyfle i weld rhai o'ch enillwyr yn cyrraedd y llwyfan mawr yma yn Llanrwst yr wythnos hon. Cofiwch mai'r eisteddfodau lleol sydd yn rhoi'r platfform i'r cystadleuwyr i ddechrau ar y daith i berfformio ac i feithrin y dalent o ymddangos o flaen cynulleidfa.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un brysur iawn i ni fel Cymdeithas, gyda thipyn o gydweithio gyda gwahanol garfannau o bobl a mudiadau, yn cynnwys pwyllgorau'r eisteddfodau lleol a chenedlaethol, cystadleuwyr, beirniaid, cyfeilyddion ayyb. Mae'r cydweithio rhwng y Gymdeithas a swyddogion y ddwy brifwyl yn dal i ddwyn ffrwyth, a gobeithir y bydd rhagor o gydweithredu yn digwydd yn y dyfodol er budd pawb sydd yn gweithio a gwirfoddoli er lles byd yr eisteddfodau.

Erbyn hyn rydym yn gweld bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'n gwefan a bod cynnydd wedi bod yn y rhaglenni sydd yn ymddangos arni ac yn cael eu lawrlwytho. Rydym hefyd yn gweld mwy o ganlyniadau a lluniau yn ymddangos arni - hyn yn arwydd bod modd marchnata eich eisteddfod yn rhad ac am ddim i ddarpar gystadleuwyr drwy ddefnyddio'r wefan. Rydym wedi gweld cynnydd mawr yn y bobl sydd yn defnyddio ein tudalen ar "Facebook" a "Twitter", sydd yn ychwanegu'r modd yr ydym yn medru hysbysebu negeseuon a chysylltu gydag eraill yn rhwydd ac am ddim. Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r cyfryngau hyn er mwyn ehangu'r neges am waith y Gymdeithas. Hefyd mae mwy o bobl wedi tanysgrifio i dderbyn 'Steddfota, sef newyddlen y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Hyn eto yn brawf bod y diddordeb mewn digwyddiadau eisteddfodol ar i fyny.

Wrth derfynu rwyf am dalu teyrnged enfawr i'm cyd swyddogion, i aelodau o'r pwyllgor ac i Shân a Lois yn bennaf am eu gwaith diflino er budd y Gymdeithas, ac wrth gwrs er lles ein heisteddfodau ym mhob cwr o Gymru.

Megan

CYFARFOD BLYNYDDOL
CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU
AWST 2019

AGENDA

1. Croeso gan y Cadeirydd – Megan Jones Roberts

2. Seremoni i anrhydeddu gwirfoddolwyr sydd wedi gweithio'n ddiflino er budd eisteddfodau lleol yn y Gogledd dros nifer fawr o flynyddoedd

Cyfarfod Blynyddol

Sgwrs fer gan Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

3. Ymddiheuriadau

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Awst 2018

5. Unrhyw faterion yn codi

6. Sylwadau byr gan y Cadeirydd am ddatblygiadau'r flwyddyn

7. Derbyn yr adroddiad ariannol

8. Ethol Swyddogion

- Cadeirydd
- Is-gadeirydd
- Trysorydd
- Ysgrifennydd

9. Unrhyw fater arall o bwys

GWIRFODDOLWYR SY'N CAEL EU HANRHYDEDDU ELENI

Enw	Eisteddfod
Miss Jean Bennett	Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn
Mr. Alun Watkin Bunford	Eisteddfod Gadeiriol Trefeglwys
Arthur Davies	Eisteddfod Bethel, Melin-y-Coed
Dei Davies	Eisteddfod Bethel, Melin-y-Coed
Gwilym Bryniog Davies	Eisteddfod Bethel, Melin-y-Coed
Mrs. Glenys Davies	Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn
John Talog Davies	Eisteddfod Gadeiriol Llanrhaeadr ym Mochnant
Mrs. Sydna Ellis	Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn
Mrs. Gaynor Evans	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst
Julia Evans	Eisteddfod Gadeiriol Llanrhaeadr ym Mochnant
Mr. Gwyn Griffith	Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn
Mrs. Ann Jones	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst
Mrs Ann P. Jones	Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch
Evan Jones	Eisteddfod Môn
Frances P. Jones	Eisteddfod Bro Llandegfan
Mr. Idris Jones	Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn
Idris Alan Jones	Eisteddfod Bro Llandegfan
Jean Jones	Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth
Mair Jones	Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn
Mrs. Mari Jones	Eisteddfod Gadeiriol Chwilog
Mrs. Nesta Jones	Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch
Rob Lewis Jones	Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn
Mrs. Meryl Metcalfe	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst
Thomas Morris	Eisteddfod Gadeiriol Llanrhaeadr ym Mochnant
Tom Morris	Eisteddfod Gadeiriol Llanrhaeadr ym Mochnant
Mr. R. Derfel Roberts	Eisteddfod Stesion Trawsfynydd
Mrs. Mary Roberts	Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn
Mrs. Aelwen Williams	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst
Dilys Williams	Eisteddfod Ieuenctid Bontnewydd
Gwen Williams	Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU AWST 2018

Yn bresennol: Megan Jones (Cadeirydd), Bill Davies (Is-gadeirydd), Gwyn a Rhian Parry Williams (Cyd-ysgrifenyddion), Gareth Jones (Trysorydd), Shân Crofft (Swyddog Datblygu), Lois Williams (Swyddog Technegol) ynghyd ag oddeutu 35 o gynrychiolwyr o wahanol eisteddfodau.

Ymddiheuriadau: Dennis ac Enid Davies Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst

Croeso: Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

1. Anrhydeddu gwirfoddolwyr

Ar ddechrau'r cyfarfod, cynhaliwyd seremoni i anrhydeddu'r gwirfoddolwyr canlynol sydd wedi gweithio'n ddiflino er budd eisteddfodau lleol yn y De tros nifer helaeth o flynyddoedd. Cadeiriwyd y seremoni gan Megan Jones, Cadeirydd y Gymdeithas, gyda Garry Owen, BBC Cymru yn cyflwyno'r tystysgrifau i:

- Eirioes Ayres a Morfudd Davies – Eisteddfod Gadeiriol Tregaron
- Cangen Merched y Wawr – Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch
- Gerald Coles – Eisteddfod Llanfihangel-ar-Arth a'r Plwyf
- Madge Daniels, Ioan Hefin Evans a Helen John – Eisteddfod Gadeiriol Mynyddygarreg
- Alan Davies – Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis
- Eirlys Evans – Eisteddfod Gadeiriol Llanarth
- Nansi Evans a Sara Humphreys Jones – Eisteddfod Abergorlech
- Wendy Griffiths – Eisteddfod Capel y Fadfa, Talgarreg
- Annie Gwendoline Herberts a Mair Jones – Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid
- Eirwen Jones – Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog
- Meinir Morgan a Buddug Thomas – Eisteddfod Gadeiriol Yr Hendy
- Imogen Roderick - Eisteddfod y Plant, Llandrindod
- Marina Thomas – Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint

2. Cofnodion

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 8 Awst 2017.

3. Adroddiad y Cadeirydd ar ddatblygiadau'r flwyddyn

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion canlynol:

- Bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un prysur iawn i'r Gymdeithas ac 'roedd yn teimlo ein bod wedi sefydlu ein hunain erbyn hyn i fod yn apelgar i sawl gwahanol garfan o bobl a mudiadau gan gynnwys pwyllgorau'r eisteddfodau lleol a chenedlaethol, cystadleuwyr, beirniaid, cyfeilyddion a.y.b.
- Bod cydweithio rhwng y Gymdeithas a swyddogion y ddwy brifwyl wedi dwyn ffrwyth a gobeithir y bydd rhagor o gydweithredu'n digwydd yn y dyfodol.
- Gwerthfawrogir cyfraniad ariannol blynyddol Llywodraeth Cymru er lles a pharhad y gwaith arbennig a wneir yn enw'r Gymdeithas er budd yr eisteddfodau lleol.
- Tynnodd sylw at y weledigaeth gafodd Dr Aled Lloyd Davies yn sefydlu'r Gymdeithas, 20 mlynedd yn ól.
- Yn dilyn ymddeoliad Huw Edwards y llynedd, fel Trysorydd y Gymdeithas, penodwyd Gareth Jones yn olynydd iddo.
- Cynhelir cyngerdd dathlu'r Gymdeithas yn 20 oed ym mhafiliwn Pontrhydfendigaid ar 1 Medi 2018 gyda rhai o gyn enillwyr cenedlaethol yn cymryd rhan. Cytunodd Garry Owen i arwain y noson. Tocynnau ar werth am £10. Derbyniwyd nawdd ariannol gan Ty Cerdd ar gyfer costau'r cyngerdd.
- Diolchodd i Gwmni Teithio Elfyn Thomas am gytuno i noddi'r raffl ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Y gwneir mwy o ddefnydd o'r wefan erbyn hyn a bod cynnydd yn y rhaglenni a ymddangosir arni ac sy'n cael eu lawrlwytho. Gwelir cynnydd hefyd yn y defnydd o'r gweplyfr a "Twitter".
- Mae mwy o bobl wedi tanysgrifio yn ystod y flwyddyn i dderbyn 'Steddfota.
- Derbyniwyd £7,480 gan Hanfod Cymru ar gyfer y Cynllun Ffatri Llais.
- Tynnodd sylw bod gan y Gymdeithas stondin ddwbl ar y maes eto eleni a stondin llai yn yr Wyl Cerdd Dant, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac Eisteddfod Cymru y Ffermwyr Ifanc.
- Nododd bod rhaglenni 38 o wahanol eisteddfodau ar y stondin eleni.
- Diolchodd i'r ddau swyddog am eu gwaith diflino er budd y Gymdeithas ac hefyd i'r cyd-ysgrifenyddion a'r is-gadeirydd.
- Diolchodd hefyd i'r holl wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo ar y stondin yn ystod yr wythnos.

4. Adroddiad y Trysorydd

Cyflwynodd y Trysorydd fantolen a oedd yn dangos yr incwm a'r gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mai 2018.

Cytunodd y Cyfarfod Blynyddol i dderbyn y fantolen ariannol.

5. Ethol Swyddogion

(Cymerwyd y gadair ar gyfer yr eitem hon gan Terwyn Tomos – cyn gadeirydd y Gymdeithas)

Nododd Rhian Williams ei dymuniad i gael ei rhyddhau o'i swydd fel cyd-ysgrifennydd y Gymdeithas. Diolchwyd iddi am ei gwaith yn ystod y blynyddoedd.

Etholwyd y canlynol yn swyddogion am 2018/19:

Cadeirydd – Megan Jones

Is-gadeirydd – Bill Davies

Trysorydd – Gareth Jones

Ysgrifennydd – Gwyn Parry Williams

Diolchwyd i Megan Jones am ei gwaith fel Cadeirydd y Gymdeithas.

6. Unrhyw Fater Arall

Tâl Aelodaeth y Gymdeithas:

Nododd y Cadeirydd mai'r tâl aelodaeth presennol yw £15 y flwyddyn a gofynnodd am farn y cyfarfod os y dylid ei godi ai peidio. **Cytunwyd** i godi'r tâl aelodaeth i £20 y flwyddyn.

GWEITHGAREDDAU A DATBLYGIADAU'R FLWYDDYN - CRYNODEB

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018

- Stondin ddwbl - llwyddiant
- Y Gystadleuaeth Gorawl - 7 côr yn cystadlu
- Cystadleuaeth Ensemble Lleisiol - Ysgoloriaeth y Gymdeithas - 4 ensemble yn cystadlu
- Nifer o weithgareddau'n cael eu cynnal yn enw'r Gymdeithas - Sesiwn Lenyddol yr Ifanc gyda'r Prifardd Ifor ap Glyn, Sesiwn farddoni gyda Bardd Plant Cymru - Casia Wiliam a Blas o Ffatri Llais gyda Sian Meinir
- Criw Stwnsh S4C yn galw'n ddyddiol i feirniadu'r gystadleuaeth ar y stondin

Steddfota - cynnydd eto yn y cylchrediad a'r nifer sy'n dymuno derbyn copi electronig

Y Cyfryngau Cymdeithasol - dal i gynyddu mae'r defnydd o'r wefan, Facebook a Twitter

Y Wefan: 89,189 Nifer o dudalennau a agorwyd o 24/7/2018 - 24/7/2019

Facebook: 1,969 wedi "hoffi" ein tudalen

Twitter: 614 o ddilynwyr (ers Hydref 2016)

Cefnogi a chyd-weithio gydag eisteddfodau

- Cyngor a gwybodaeth gyffredinol e.e y Ddeddf Rheoli a Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
- Dylunio rhaglenni a deunydd marchnata
- Grantiau - prosiectau penodol
- Sgen Ti Dalent
- Y Raffl Fawr
- Hyrwyddo eisteddfodau ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol
- Dosbarthu canllawiau yn ôl y galw e.e "Trefnu Eisteddfod" a "Gwasanaethau'r Gymdeithas"
- Dechreuwyd ar y gwaith o gasglu gwybodaeth am wirfoddolwyr drwy holiaduron
- Cydweithio'n agos gyda phwyllgor Eisteddfod Caerdydd - eisteddfod newydd sy'n cychwyn yn Ionawr 2020
- Dwy ardal arall wedi cysylltu gyda ni ynglyn ag ail-ddechrau eisteddfodau, sef Trefor a Llanberis

Cyngerdd Dathlu 20 oed y Gymdeithas

Ar gychwyn mis Medi 2018 cynhaliwyd cyngerdd mawreddog ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid, gydag enillwyr cystadlaethau'r Gymdeithas dros y blynyddoedd. Cafwyd noson wefreiddiol i ddathlu'r garreg filltir bwysig hon.

Ffatri Llais (arweinydd: Sian Meinir, cyfeilydd: Sian Gwawr Davies)

- Medi 2018: Penarth - 6 o gantorion
- Ionawr 2019: Porthyrhyd - 8 o gantorion

Bydd y gweithdy olaf yn cael ei gynnal yn yr Hydref.

Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018

Stondin yn yr ŵyl i werthu tocynnau raffl ac i ddosbarthu rhaglenni eisteddfodau lleol, yn ogystal â Steddfota a rhai canllawiau

Eisteddfod CFfl Cymru 2018

Yn anffodus nid oedd y swyddogion nag unrhyw wirfoddolwyr ar gael i fynychu'r eisteddfod y tro hwn

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019

- Stondin sengl mewn lleoliad da iawn - wythnos brysur iawn, gyda gwirfoddolwyr yn rhoi help llaw yn ddyddiol i'r Swyddogion
- Dros 1,000 o ymwelwyr wedi galw heibio'r stondin yn ystod yr wythnos
- Ffilmiwyd eitem ar y stondin gan S4C - cyfweliad gyda swyddogion Eisteddfod Caerdydd (eisteddfod leol newydd sy'n cychwyn yn 2020)
- Criw Stwnsh S4C yn galw bob dydd i feirniadau'r ddwy gystadleuaeth ddyddiol
- Dosbarthwyd nifer o raglenni eisteddfodau a.y.b

Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019

- Y Gystadleuaeth Gorawl – 9 Côr yn cystadlu
- Cystadleuaeth Perfformio Darn Digri - 6 yn cystadlu
- Gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn enw'r Gymdeithas - Sesiwn Lenyddol yr Ifanc gyda'r Prifardd Ifor ap Glyn, Sesiynau Clocsio gyda Tudur Phillips, Barddoni gydag Anni Llŷn, Gweithdy Cymeriadu gydag Iwan John, Sesiwn Farddoni gyda Gruffudd Owen - y Bardd Plant Cymru newydd, a llu o bethau eraill
- Cystadlaethau dyddiol (criw Stwnsh yn beirniadu) a chystadleuaeth yr wythnos
- Tynnu'r Raffl Fawr ar y dydd Sadwrn olaf

INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAI 2019

	2018/19	2017/18
	£	£
Incwm		
Llywodraeth Cymru	45,056	44,620
Grant arall	7,480	0
Cyngor Sir Gâr	0	3,000
Nawdd a Rhoddion eraill	1,975	1,850
Tanysgrifiadau	1,678	1,050
Raffl y Gymdeithas	1,628	1,285
Incwm arall	1,251	0
	59,068	**51,805**
Gwariant		
Cyflogau Swyddogion Datblygu	29,894	28,674
Costau swyddfa Swyddogion Datblygu	7,804	7,252
Gweithgareddau a phrosiectau:		
Gweithgareddau eisteddfodau	5,325	6,890
Gweithgareddau yn yr eisteddfodau cenedlaethol	6,777	5,367
Cyngerdd Dathlu	3,607	0
Argraffu a phrynu nwyddau ac offer eraill	3,497	5,199
Costau rheolaeth a gweinyddol	1,579	1,648
	58,483	**55,030**
Gweddill am y flwyddyn	**585**	**(3,225)**

Mantolen - 31 Mai 2019

	2019	2018
	£	£
Asedau cyfredol		
Dyledwyr	8,776	8,416
Arian yn y banc	1,154	8,455
	9,930	16,871
Credydwyr		
Incwm gohiriedig	0	(7,480)
Credydwyr – dyledus o fewn blwyddyn	(4,800)	(4,846)
Asedau net	**5,130**	**4,545**
Cronfa wrth gefn		
Ar ddechrau'r flwyddyn	4,545	7,770
Gweddill am y flwyddyn	585	(3,225)
Ar ddiwedd y flwyddyn	**5,130**	**4,545**

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru